


# YSGOLION YR 21AIN GANRIF



ADRODDIAD YMGYNGHORI AR GYNNIG I WNEUD NEWID  
RHEOLEIDDIEDIG A SYMUD YSGOL GYNRADD GYMRAEG LLYN Y  
FORWYN I ADEILAD NEWYDD AR SAFLE NEWYDD

# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

## ADRODDIAD YMGYNGHORI

**Cynnig: Cynnal newid rheoledig i Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn y Forwyn (YGG Llyn y Forwyn), trwy symud yr ysgol i adeilad newydd sbon ar safle newydd.**

### 1. Pwrpas yr Adroddiad Ymgynghori

Caiff yr adroddiad yma ei lunio yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, sef dogfen statudol 011/2018. Ei bwrpas yw llywio canlyniad yr ymgynghoriad a gafodd ei gynnal yn ystod y cyfnod rhwng 1 Mawrth 2021 a 30 Ebrill 2021 gyda'r holl randdeiliaid a'r partion â buddiant sydd wedi'u rhestru isod.

### 2. Â phwy ymgynghoron ni?

Cafodd copi o'n dogfen ymgynghori, a oedd yn rhoi'r holl wybodaeth am ein cynnig, ei anfon i'r rhanddeiliaid canlynol. Cafodd y ddogfen hefyd ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor ar dudalen [www.rctcbc.gov.uk/ymgyngoriadauysgolion](http://www.rctcbc.gov.uk/ymgyngoriadauysgolion) ac fe'i rhannwyd ar y cyfryngau

- Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn y Forwyn
- Rhieni/gwarcheidwaid, darpar rieni/warcheidwaid, ac aelodau o staff YGG Llyn y Forwyn
- Disgyblion YGG Llyn y Forwyn
- Cyrff llywodraethu'r ysgolion cynradd cyfagos.
- Awdurdodau Lleol cyfagos
- Awdurdod yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig
- Gweinidogion Cymru
- Aelodau'r Senedd ar gyfer etholaethau Cwm Rhondda, Cwm Cynon a Thaf-elái ac Aelodau rhanbarthol o'r Senedd ar gyfer yr ardal.
- Aelodau Seneddol ar gyfer etholaethau Cwm Rhondda, Cwm Cynon a Thaf-elái.
- Estyn
- Undebau llafur athrawon a staff
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd - Consortiwm Canolbarth y De
- Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer yr ardal
- Darparwyr Gofal Plant Mudiad Meithrin
- Menter Iaith
- Partneriaeth Datblygu Addysg y Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Plant a Phobl Ifainc
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Comisiynydd y Gymraeg.

cymdeithaso.

### 3. Y Cynnig

Y cynnig yw gwneud newid rheoledig i YGG Llyn y Forwyn trwy symud yr ysgol i adeilad newydd sy'n cyrraedd safon Ysgolion 21<sup>ain</sup> Ganrif ar safle a elwir yn lleol yn safle'r hen Ffatri Chubb, Glynrhedynog. Bydd yr ysgol yn darparu ar gyfer plant rhwng 3 ac 11 oed sydd eisiau addysg gynradd cyfrwng Gymraeg. Y bwriad yw derbyn 30 disgybl ar gyfer pob grŵp blwyddyn gyda lle i 210 o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion meithrin.

Mae'r rhesymau dros ystyried y cynnig penodol yma wedi'u hamlinellu'n llawn yn y ddogfen ymgynghori sydd wedi'i dosbarthu i'r holl randdeiliaid yn y rhestr drosodd sydd wedi'i hatodi yn Atodiad 1; mae hyn hefyd yn cynnwys yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.

### 4. Y Broses Ymgynghori

Cafodd copiâu electronig o'r ddogfen ymgynghori eu hanfon at yr holl randdeiliaid sydd wedi'u nodi yn Adran 2 drosodd. Anfonwyd copiâu papur at bob un a wnaeth gais am un. Cafodd y cyfarfodydd canlynol eu cynnal:

Ysgol fydd yn cael ei heffeithio	Cyfadran	Amser/Dyddiad	Lleoliad
<b>YGG Llyn y Forwyn</b>	<b>Cyfarfod y Corff Llywodraethu a Staff</b>	<b>Dydd Mawrth 16 Mawrth, 3.45pm-5.15pm</b>	<b>Microsoft Teams</b>
<b>YGG Llyn y Forwyn</b>	<b>Cyngor yr Ysgol - YGG Llyn y Forwyn</b>	<b>Dydd Iau, 22 Ebrill 2021, 1.30pm - 2.30pm</b>	<b>Microsoft Teams</b>

Cafodd y cyfarfodydd eu cynnal ar-lein yn sgil cyfyngiadau Covid-19. Mae'r holl nodiadau a gymerwyd wedi'u hatodi yn Atodiad 2. Mae'r nodiadau yma'n cofnodi'r cwestiynau a godwyd, y sylwadau a'r datganiadau a wnaed, gyda'r ymatebion yn cael eu darparu lle bo'n briodol. Cafodd y cyfarfod gyda'r disgyblion ei gynnal yn ddwyieithog ac felly mae fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r nodiadau wedi'u cynnwys.

Er mwyn sicrhau bod disgyblion YGG Llyn y Forwyn yn deall yr wybodaeth yn y cynnig, crëwyd fersiwn o'r ddogfen ymgynghori yn arbennig i bobl ifainc a'i darparu i'r ysgol i'w dosbarthu i bob disgybl. Yn ogystal, i gefnogi ac annog disgyblion i ymgysylltu ymhellach, crëwyd a chwaraewyd fideo o'r ddogfen ymgynghori i bobl ifainc yn ystod y cyfarfod ymgynghori. Yn dilyn hynny, anfonwyd y fideo i'r ysgol i'w alluogi i gael ei rannu gyda gweddill y disgyblion.

Cliciwch yma i weld y fideo:

Cymraeg - [https://youtu.be/\\_5C-tB9ZSAU](https://youtu.be/_5C-tB9ZSAU)

Saesneg - <https://youtu.be/gtQwubOkCPY>

## 5. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Mae'r ymatebion i'r materion a gafodd eu codi yn y cyfarfodydd sydd wedi'u crybwyll uchod wedi'u crynhoi yn nodiadau'r cyfarfodydd sydd ynghlwm yn Atodiad 2. Yn ogystal, daeth 72 o ymatebion ysgrifenedig i law trwy'r arolwg ar-lein. Roedd yr arolwg yma ar gael trwy gydol y cam ymgynghori. O'r 72 ymateb ysgrifenedig, roedd 70 o blaid y cynnig, roedd 1 yn erbyn, ac 1 yn ansicr.


Yn unol â'r Cod, mae crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd yn y tabl isod. Ymatebwyd i unrhyw broblemau sy'n codi o'r ymatebion yma drwy egluro'r rhesymau i gefnogi'r cynnig, ble y bo hynny'n addas.

Mae'r graff isod yn tynnu sylw at yr ymateb hynod gadarnhaol a gafwyd i'r cynnig fel y cafodd ei gyflwyno yn yr ymgynghoriad. Dyma'r cwestiynau y gofynnnon ni:

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig?

Cwestiwn 2: Ydych chi o'r farn y gallai'r cynnig effeithio (yn gadarnhaol) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg?

Cwestiwn 3: Ydych chi o'r farn bod y cynnig mewn unrhyw ffordd yn trin y Gymraeg yn LLAI ffafriol na'r Saesneg?



## Crynodeb o'r prif faterion a godwyd a'r ymateb iddyn nhw

Cwestiwn	Sylwadau/Materion	Eglurhad - ble'n addas
C1. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig?	Cyfle gwych i Blant yng Nghwm Rhondda Fach i gael eu dysgu mewn adeilad sy'n addas i'w ddefnyddio.	
C1. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig?	Mae adleoli Ysgol Llyn y Forwyn mewn adeilad newydd sbon yn gyffrous ac yn codi proffil argaeledd addysg cyfrwng Cymraeg o fewn y	

	<p>gymuned. Mae adleoli Ysgol Llyn y Forwyn mewn adeilad newydd sbon yn gyffrous ac yn codi proffil argaeledd addysg cyfrwng Cymraeg o fewn y gymuned.</p>	
<p>C1. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig?</p>	<p>Rydw i ar ddeall bod gan YGG Llyn Y Forwyn ddsbarthiadau sydd ymhell islaw nifer cyfartalog RhCT a Chwm Rhondda. Mae YGG Llwynceilyn dan ei sang, gyda gormod o bobl yno... ac mae YG Cwm Rhondda yn dadfeilio o amgylch y disgyblion. Credaf ei bod hi'n hurt bost adeiladu ysgol newydd i lai na 200 o ddisgyblion pan fo mwy o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill yn yr ardal yn cael eu diystyru. Wrth gwrs, hoffwn pe bai pob ysgol yn cael eu hadnewyddu. Mae'r ysgolion Cymraeg yng Nghwm Rhondda wedi'u hesgeuluso am lawer rhy hir. Onid buddsoddi arian lle byddai'n cael yr effaith fwyaf ar y nifer fwyaf o ddisgyblion fyddai'r ffordd orau i ddatblygu pethau? Dyw adeiladu ysgol newydd sy'n gwasanaethu nifer mor fach o ddisgyblion yng Nglynrhedynog ddim yn gwneud unrhyw synnwyr. Buddsoddwch yn YG Cwm Rhondda a bydd pob un yn elwa ta beth wrth symud i'r ysgol uwchradd.</p>	<p>Mae'r rhesymeg dros y cynigion wedi'i nodi'n glir yn y ddogfen ymgynghori. Dyw'r sylwadau sydd wedi dod i law ddim yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cynigion sydd yn yr ymgynghoriad.</p> <p>Serch hynny, bydd y Cyngor, yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, yn parhau i fuddsoddi mewn addysg cyfrwng Cymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol gan hyrwyddo'r Gymraeg a chefnogi cyflwyno Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru - Cymraeg 2050.</p> <p>Dyw YGG Llwynceilyn ddim wedi'i gordanysgrifio ac mae wedi derbyn buddsoddiad sylweddol trwy Fand A o'r Rhaglen Ysgolion a Cholegau yr 21<sup>ain</sup> Ganrif, gan wella a chynyddu capasiti'r ysgol. Yn dilyn hyn, mae'r Cyngor wedi parhau i fuddsoddi yn yr ysgol drwy'i Raglen Moderneiddio Ysgolion.</p> <p>Mae'r Cyngor yn cynnal astudiaethau dichonoldeb i wella YG Cwm Rhondda yn y dyfodol. Cafodd y canlyniadau eu cyflwyno i Gabinet y Cyngor yn y gorffennol a bydd yr Aelodau'n ei drafod ar ôl</p>

		i'r astudiaeth gael ei chwblhau.
C2. Ydych chi o'r farn y gallai'r cynnig effeithio (yn gadarnhaol) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg?	Bydd yr adeilad newydd yma'n cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Bydd llawer o rieni yn gweld manteision anfon eu plant i adeilad newydd gyda llawer o gyfleoedd gan gynnwys dysgu'r Gymraeg	
C2. Ydych chi o'r farn y gallai'r cynnig effeithio (yn gadarnhaol) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg?	Credwn y bydd y cynnig yma'n cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i blant, pobl ifainc a'r gymuned ehangach ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r grŵp yn arbennig o falch o nodi y bydd y cylch meithrin sydd ar y safle presennol yn symud gyda'r ysgol ac yn elwa o gyfleusterau gwell. Bydd hyn yn cyfrannu at hyrwyddo gofal plant cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.	
C2. Ydych chi o'r farn y gallai'r cynnig effeithio (yn gadarnhaol) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg?	Na, bydd yn sugno arian o feysydd lle mae mwy o angen hyrwyddo'r Gymraeg.	Fel y soniwyd uchod, yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, bydd RhCT yn parhau i fuddsoddi mewn addysg gyfrwng Cymru ledled y Fwrdeistref Sirol ac yn cefnogi cyflwyno Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru - Cymraeg 2050.
C2. Ydych chi o'r farn y gallai'r cynnig effeithio (yn gadarnhaol) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg?	Bydd maes newydd yn galluogi staff a phlant i ddysgu mewn ffordd fwy effeithiol gan wneud defnydd da o ardaloedd awyr agored.	
C3. Ydych chi o'r farn bod y cynnig mewn unrhyw ffordd yn trin y Gymraeg yn LLAI ffafriol na'r Saesneg?	Na. Dylai hyn ganiatáu i addysg Gymraeg fod yn fwy cyfartal â'r hyn sy'n cael ei darparu ar hyn o bryd yng nghyd-destun addysg Saesneg.	
C3. Ydych chi o'r farn bod y cynnig mewn	Credaf y bydd y cynnig yma'n gwella cyfleusterau Cymraeg i fod yr un fath â	

unrhyw ffordd yn trin y Gymraeg yn LLAI ffafriol na'r Saesneg?	chyfleusterau Saesneg yng Nghwm Rhondda Fach.	
C3. Ydych chi o'r farn bod y cynnig mewn unrhyw ffordd yn trin y Gymraeg yn LLAI ffafriol na'r Saesneg?	Ddim o gwbl. Mae'r cynigion yn dangos cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.	

### **Barn Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) ynglŷn â Manteision Cyffredinol y Cynnig.**

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 - Safonau a Threfniadaeth Ysgolion, mae ymateb Estyn i'r ymgynghoriad wedi'i ddarparu'n llawn yn Atodiad 3. Does dim gofyn bod Estyn yn gweithredu yn unol â'r Cod, a dydy'r Ddeddf ddim yn gosod unrhyw ofynion ar Estyn mewn perthynas â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, ac yntau'n gorff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi ei farn ar fanteision cyffredinol y cynigion o ran trefniadaeth yr ysgol yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig ac wedi ymateb i'r wybodaeth sydd wedi'i darparu gan y cynigydd, yn ogystal â gwybodaeth ychwanegol megis data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion ar gyfer yr ysgolion sy'n ymwneud â'r cynnig. **Ar y cyfan, barn Estyn yw bod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau addysgol presennol yn yr ardal o leiaf.**

Yn unol â'r Cod, mae'r rhannau o'r ymateb sy'n gofyn am eglurdeb pellach wedi'u nodi yn y tabl isod.

<b>Adroddiad Estyn</b>	<b>Eglurhad</b>
Er bod gan yr awdurdod lleol ddisgrifiad clir o'r cynnig ac amserlen ar gyfer gweithdrefnau statudol, dyw e ddim yn nodi amserlen ar gyfer gweithredu'r cynigion, ac eithrio'n nodi y bydd yn cael eu gweithredu cyn Mawrth 2024.	Bydd gwaith pellach ar raglen y prosiect yn cael ei ddatblygu unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud ar y cynnig.  Bydd rhaglen y prosiect yn cael ei chyflwyno i randdeiliaid allweddol wrth i elfen ddylunio ac adeiladu'r cynnig fynd yn ei flaen.

Mae'r cynnig yn nodi ei bod hi'n anochel y bydd 'rhai' disgyblion yn byw ymhellach o safle'r ysgol newydd, ond nid yw'n ystyried faint sy'n byw yn bellach, nac yn manylu ar sut y bydd yr awdurdod lleol yn delio â'r mater.

Ar hyn o bryd mae 55% o ddisgyblion yn teithio ar gludiant pwrpasol o'r cartref i ysgol. Yn seiliedig ar godau post ein disgyblion cyfredol, rydyn ni'n rhagweld y bydd y ffigur yma'n gyson, er y bydd y disgyblion yn byw mewn gwahanol ardaloedd yng Nghwm Rhondda Fach.

Fydd yr 21 o ddisgyblion hynny sy'n mynychu'r ysgol o ardal Maerdy ar hyn o bryd ddim yn gymwys i gael cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim gan y byddan nhw'n byw o fewn 1.5 milltir i'r ysgol. Fodd bynnag, bydd 23 o ddisgyblion ychwanegol sy'n byw i'r de yng Nghwm Rhondda Fach yn gymwys, gan y byddan nhw'n byw ymhellach na 1.5 milltir o safle newydd yr ysgol.

Mae'r Cyngor yn gweithredu polisi cludiant o'r cartref i ysgol sy'n fwy hael nag sy'n ofynnol yn statudol, ac mae'n cynnig trafndiaeth i blant sy'n byw dros 1.5 milltir o'u hysgolion cynradd ac i ddisgyblion uwchradd sy'n byw dros 2 filltir o'r ysgol. Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 Llywodraeth Cymru yn nodi mai plant iau sy'n byw dros 2 filltir o'u hysgol agosaf sydd â hawl i gludiant, neu 3 milltir yn achos disgyblion uwchradd.

Er bod y cynnig yn trafod bod angen gwaith aruthrol ar adeilad a safle presennol yr ysgol, dyw'r awdurdod lleol ddim yn archwilio'r opsiwn o wella'r adeilad a'r safle hwnnw yn effeithiol.

Mae archwiliadau gweledol o safle presennol yr ysgol wedi'u cynnal ac mae'n amlwg nad yw'r dirwedd yn addas ar gyfer ddatblygu ysgol newydd sy'n cydymffurfio â gofynion Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif.

Roedd y dirwedd heriol a'r prinder ardaloedd allanol yn rhywbeth gododd Estyn yn arolygiad diwethaf yr ysgol.

'D' yw sgôr cyflwr yr adeilad ysgol presennol. Mae hynny'n golygu bod yr adeilad wedi cyrraedd diwedd ei oes.

Dyw'r cynigydd ddim yn archwilio'r rheswm dros leoedd dros ben yn fanwl. Mae'r cynigydd yn edrych arnynt er mwyn nodi bod modd i adeiladau ysgol gwell arwain at ddisgyblion ychwanegol yn dewis astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd cynnig lleoedd ysgol ychwanegol yn helpu i gyflawni'r targedau yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) ac yn cefnogi deilliannau Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.



<p>Mae'r cynnig yn nodi costau ariannol y cynnig ac yn amcangyfrif mai £8.5 miliwn yw cost yr adeilad newydd. Serch hynny, nid yw'n glir a yw'r cyllid yma'n ddiogel. Dyw'r cynigydd ddim yn egluro beth fydd yn digwydd os nad yw'r cyllid yma ar gael</p>	<p>Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n llwyr i fuddsoddi mewn adeiladu ysgol newydd; fodd bynnag, mae manylion y pecyn cyllido eto i'w cwblhau.</p> <p>Bydd hyn yn amodol ar gymeradwyaeth bellach y Cabinet a'r Cyngor ar yr adeg briodol.</p>
<p>Mae'r cynnig yn ystyried, i raddau, effaith y cynnig ar grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Addysgol Arbennig, ond nid yw'n darparu digon o wybodaeth ynghylch y maes yma.</p>	<p>Fydd yr ysgol newydd ddim yn cael unrhyw effaith negyddol ar ddysgwyr ag ADY a bydd yn darparu amgylchedd dysgu cwbl gynhwysol a hygyrch i bob dysgwr, gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed.</p> <p>Bydd angen cymorth i ddisgyblion ag ADY yn ystod y cyfnod pontio er mwyn iddyn nhw gyfarwyddo â'r amgylchedd dysgu newydd, gwell.</p> <p>Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i adolygu darpariaeth ADY yn gyson ac os oes tystiolaeth o alw digonol am ddarpariaeth arbenigol yna rhoddir ystyriaeth ddyledus i hynny a chymerir camau priodol yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.</p>
<p>Dyw'r cynnig ddim yn ystyried pa ffactorau sy'n tarfu a all godi yn yr achos yma, na sut y bydd yr awdurdod lleol yn lleihau'r rhain er bydd y dysgwyr.</p>	<p>Dydyn ni ddim yn rhagweld y bydd unrhyw darfu ar staff a disgyblion gan y bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar safle newydd. Bydd hyn yn caniatáu i'r ysgol bresennol barhau i redeg fel y mae ar hyn o bryd.</p> <p>Unwaith y bydd yr ysgol newydd wedi'i chwblhau ac yn barod i bawb symud iddi. Bydd y trefniadau yma'n cael eu cydlynu yn unol â hynny gyda chydweithrediad llawn a chyfathrebu â staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni/gwarcheidwaid yr ysgol.</p>

## **6. Asesiad o'r Ymgynghoriad**

O ystyried yr ymatebion a'r sylwadau a gafodd eu derbyn yn ystod y cyfnod ymgynghori, mae asesiad arall o'r cynigion sydd yn y ddogfen ymgynghori wedi cael ei gynnal. Rydyn ni wedi ailedrych ar y cynnig ac mae'r materion canlynol wedi'u hailasesu:

- Effaith debygol y cynigion ar ansawdd a safon yr addysg;
- Yr effaith debygol ar y gymuned; a
- Effaith debygol ar newid trefniadau teithio.

Ar ôl ystyried ymhellach, mae'r cynigion yn dal i gael eu hystyried fel y rhai mwyaf priodol ac o'r herwydd does dim unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i'r cynnig.

## **7. Casgliad**

Does dim o'r wybodaeth a gafodd ei chyflwyno yn ystod y cyfnod ymgynghori wedi golygu bod angen newid y ddogfen ymgynghori, ac felly mae'r wybodaeth yn parhau i fod yr un peth. Oherwydd hynny, ystyrir y dylid rhoi'r cynigion yma i gyd ar waith, heb unrhyw newidiadau iddyn nhw.

Argymhelliad yr adroddiad yma yw y dylai hysbysiad statudol gael ei gyhoeddi yn unol â'r ymgynghoriad heb newidiadau, er mwyn mynd â'r cynnig yma yn ei flaen.

Atodiad 1

# YSGOLION YR 21AIN GANRIF



YMGYNGHORIAD AR GYNNIG I WNEUD NEWID A REOLEIDDIR A  
THROSGWLWYDDO YSGOL GYNRADD GYMRAEG LLYN Y FORWYN I  
ADEILAD NEWYDD AR SAFLE NEWYDD

Mae'r ddogfen ymgynghori ac atodiadau yma hefyd ar gael ar dudalen 'Dod  
yn rhan o bethau' ar wefan y Cyngor

## Cynnwys

## Tudalen

### Cyflwyniad

Â phwy byddwn ni'n ymgynghori?	2
Beth fydd y broses ymgynghori yn ei gynnwys?	3
Yr hyn y bydd angen i chi'i ystyried	3
Lleisio'ch barn	3 – 4
Barn plant a phobl ifainc	4
Asesiadau Effaith ar y Gymuned, ar Gydraddoldeb ac ar y Gymraeg	5

### Adran 1 – Cefndir i'r cynnig

YGG Llyn y Forwyn – Y sefyllfa ar hyn o bryd	6 – 8
Beth yw sail y cynnig yma?	8 – 9
Pa opsiynau eraill sydd wedi cael eu hystyried?	9 – 11
Buddion ac anfanteision; risgiau a ffactorau lliniaru	11 – 12
YGG Llyn y Forwyn – Lle hoffen ni fod	13 – 16
Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA/WESP)	16
Trefniadau Derbyn Disgyblion	17 – 18

### Adran 2 – Effaith debygol y cynnig

Y sail addysgol ar gyfer y cynnig	18 – 19
Beth fydd effaith debygol y cynnig ar ddisgyblion?	19 – 20
Beth fydd effaith debygol y cynnig ar y staff?	20
Goblygiadau ariannol y cynnig	20
Gwybodaeth o ran cludiant o'r cartref i'r ysgol	21
Gwybodaeth o ran tir ac adeiladau	21

### Ffurflen ar gyfer Ymateb i'r Ymgynghoriad

22 – 26

## Cyflwyniad

Mae'r Cyngor am geisio barn rhanddeiliaid ar y cynnig i wneud newid a reoleiddir i:

- Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn y Forwyn (YGG Llyn y Forwyn), trwy drosglwyddo'r ysgol i adeilad newydd sbon ar safle newydd. Cynigir adeiladu'r adeilad ysgol newydd ar y tir i'r ochr ogleddol o Grib-y-ddôl, Glynrhedynog, CF43 4AD, a gaiff ei alw'n hen Ffatri Chubb yn lleol. Cynigir y bydd y newid a reoleiddir yn cael ei wneud erbyn mis Mawrth 2024.

Mae'r cynnig yma'n cael ei wneud yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion – 2018 (011/2018). Mae Adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion – 2018 yn cyfeirio at newidiadau a reoleiddir i ysgol, sy'n cynnwys:

- Trosglwyddo unrhyw ysgol i safle neu safleoedd newydd.

### Â phwy byddwn ni'n ymgynghori?

Byddwn ni'n ceisio barn y rhanddeiliaid canlynol:

- Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn y Forwyn
- Rhieni/gwarcheidwaid, darpar rieni/warcheidwaid lle bo modd, ac aelodau o staff YGG Llyn y Forwyn
- Disgyblion YGG Llyn y Forwyn
- Cyrff llywodraethu'r ysgolion cynradd cyfagos
- Awdurdodau lleol cyfagos
- Awdurdod yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig
- Gweinidogion Cymru
- Aelodau'r Senedd ar gyfer etholaethau Cwm Rhondda, Cwm Cynon a Thaf-elái ac Aelodau rhanbarthol o'r Senedd ar gyfer yr ardal
- Aelodau Seneddol ar gyfer etholaethau Cwm Rhondda, Cwm Cynon a Thaf-elái
- Estyn
- Undebau llafur athrawon a staff
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd, Consortiwm Canolbarth y De
- Y Comisiynydd Heddlu a Throseddau ar gyfer yr ardal
- Darparwyr Gofal Plant
- Mudiad Meithrin
- Menter Iaith
- Partneriaeth Datblygu Addysg y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Comisiynydd y Gymraeg

## Beth fydd y broses ymgynghori yn ei gynnwys?

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ddydd Llun 1 Mawrth 2021 a bydd yn dod i ben am 5pm ddydd Gwener 30 Ebrill 2021. Bydd yr adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei goladu a'i grynhoi, a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor ym mis Mai 2021. Bydd yr adroddiad yma ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor, a bydd copïau papur ar gael ar gais o'r cyfeiriad a nodir ar dudalen 4 o'r ddogfen yma.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ac yn penderfynu - yn seiliedig ar yr adborth - a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig, newid y cynnig, neu beidio â bwrw ymlaen ag ef. Os bydd y Cabinet yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen, dyna fydd diwedd y cynnig yma.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, bydd Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi, gan ddarparu cyfnod hysbysu 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau. Mae'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2018 yn ei gwneud hi'n ofynnol bod unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgolion, yn cael y cyfle i wneud hynny. Er mwyn ystyried gwrthwynebiadau yn rhai statudol, **rhaid** eu cyflwyno'n ysgrifenedig / drwy e-bost, a'u hanfon at y Cyngor o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y cafodd y cynnig ei gyhoeddi.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried canlyniad yr hysbysiad statudol yng nghyfarfod nesaf (cyfleus) y Cabinet ac yn penderfynu a ddylid gweithredu'r cynnig.

Os bydd gwrthwynebiadau, bydd Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad gwrthwynebu gan ddarparu crynodeb o'r gwrthwynebiadau a'i ymateb iddyn nhw cyn pen 7 diwrnod o ddyddiad dod i benderfyniad ar y cynnig. Bydd yr adroddiad yma ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor hefyd, a bydd copïau ar gael ar gais o'r cyfeiriadau sydd ar dudalen 4 yn y ddogfen yma.

Os yw Cabinet y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnig, caiff y cynnig ei weithredu yn unol â'r dyddiad a gafodd ei roi yn yr hysbysiad statudol neu unrhyw ddyddiad sydd wedi'i addasu, wedi hynny. Yn yr achos yma, fydd y dyddiad gweithredu ddim yn hwyrach na mis Mawrth 2024 ar gyfer trosglwyddo YGG Llyn y Forwyn i'r safle newydd.

## Yr hyn y bydd angen i chi'i ystyried

Mae gweddill y ddogfen ymgynghori yn nodi sail resymegol y trosglwyddo arfaethedig o YGG Llyn y Forwyn i ysgol newydd ar safle newydd. Hoffen ni i chi ystyried yr wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn y ddogfen yma, a chlywed eich barn ynglŷn ag a ydych chi'n cefnogi'r cynnig yma ai peidio. Cynigir adeiladu adeilad ysgol newydd ar gyfer yr holl blant sydd am gael lle yn YGG Llyn y Forwyn ar safle'r hen ffatri Chubb.

## Lleisio'ch barn

Er mwyn cydymffurfio â chanllawiau Covid diweddaraf Llywodraeth Cymru, fydd cyfarfodydd wyneb yn wyneb ddim yn cael eu trefnu. Serch hynny, bydd sesiynau rhithwir gyda staff a Chorff Llywodraethu YGG Llyn y Forwyn yn cael eu trefnu.

Mae holiadur ymgynghori wedi'i gynnwys ar dudalen 21 o'r ddogfen yma. Mae hefyd ar gael ar wefan y Cyngor, ar dudalen 'Dod yn rhan o bethau'.

Mae'r holiadur hefyd yn fodd i ymgynghoreion gofrestru eu dymuniad i gael eu hysbysu am gyhoeddi adroddiad yr ymgynghoriad ar ôl ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor.

Mae hefyd croeso i chi roi eich barn, neu ofyn unrhyw gwestiynau a allai fod gyda chi mewn ysgrifen at:

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant  
Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif  
Tŷ Trevithick  
Abercynon  
CF45 4UQ

E-bost: [cynllunioysgolion@rhondda-cynon-taf.gov.uk](mailto:cynllunioysgolion@rhondda-cynon-taf.gov.uk)

### **Dylai pob gohebiaeth ddod i law erbyn 5pm ddydd Gwener 30 Ebrill 2021.**

Nodwch na fydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig oni bai fod cais arbennig i wneud hynny. Dim ond ar ôl cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol y mae modd anfon gwrthwynebiadau.

### **Barn plant a phobl ifainc**

Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod llais pobl ifainc yn ymwneud â'u cynnwys nhw'n gyfranogwyr gweithredol o'r broses datblygu, cyflawni, rheoli a gwella eu profiad addysgol a phrofiad fel myfyrwyr.

Mae gan bobl ifainc hawl i fynegi eu barn ar bob mater sy'n cael effaith arnyn nhw ac i'w barn gael ei chlywed a'i hystyried yn unol â'u hoedran a'u haeddfedrwydd. Felly, bydd Carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif yn sicrhau bod trefniadau addas yn cael eu gwneud i gynnwys disgyblion yn gyfranogwyr gweithredol trwy gydol y broses ymgynghori ac, os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig, drwy gydol y broses weithredu hefyd.

Bydd y Cyngor yn ymgynghori â disgyblion sy'n mynychu YGG Llyn y Forwyn trwy lunio fersiwn o'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad sy'n addas i blant a phobl ifainc. Er mwyn cydymffurfio â chanllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru ar Covid-19, byddwn ni'n gweithio ar y cyd ag YGG Llyn y Forwyn i drefnu cyfarfod rhithwir trwy ddefnyddio technoleg cynadledda fideo (Microsoft Teams/Zoom) i drafod y cynnig gyda disgyblion yn yr ysgol ac i esbonio'r fersiwn o'r ddogfen ymgynghori sy'n addas i blant. Bydd nodiadau o'r drafodaeth yma yn cael eu cynnwys yn y dogfennau sy'n cael eu cyflwyno i Gabinet y Cyngor i'w hystyried ar ôl i gyfnod yr ymgynghoriad ddod i ben.

## **Aseidiadau Effaith ar y Gymuned, ar Gydraddoldeb ac ar y Gymraeg**

Fel sy wedi'i nodi yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol inni gyhoeddi Aseidiadau Effaith ar y Gymuned, Effaith ar y Gymraeg ac Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'r rhain wedi'u paratoi fel atodiadau i'r ddogfen yma ac maen nhw hefyd ar gael ar wefan y Cyngor.



### YGG Llyn y Forwyn – Y sefyllfa ar hyn o bryd

Mae YGG Llyn y Forwyn yn ysgol gymunedol cyfrwng Cymraeg sydd wedi'i lleoli yn Nheras y Darren, Glynrhedynog. Ar y safle, mae adeilad ysgol Fictoraidd, carreg draddodiadol. Yn ôl arolwg cyflwr yr ysgol a gafodd ei gynnal gan y Cyngor yn 2019, mae YGG Llyn y Forwyn wedi'i graddio'n D o ran ei chyflwr, a gradd C o ran addasrwydd (lle A yw'r gorau a D yw'r gwaethaf o ran safon). Cydnabyddir mai dyma'r ysgol waethaf ym mhorthffolio addysg y Cyngor yn nhermau cyflwr ac addasrwydd.



*Yr olygfa o'r adeilad ysgol presennol o Deras y Darren.*



*Yr olygfa o iard darmac bloc y babanod.*

Mae gan y safle ddau adeilad carreg o ddechrau'r 20fed Ganrif, sydd ar safle tarmac ar lethr. Mae gan y ddau adeilad ddau lawr. Yn ôl arolwg cyflwr safle a gafodd ei gynnal gan y Cyngor yn 2019, mae'r to bellach yn agosáu at ddiwedd ei oes naturiol.

Dydy'r safle ei hun, na'r ddau adeilad ysgol, ddim yn hygyrch a dydyn nhw ddim yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Yn ôl yr arolwg, mae'r ddau bloc yn dangos bod dŵr yn mynd i mewn trwy ddeunydd yr adeilad sydd, o ganlyniad i hyn, wedi difrodi gwaith plastiro a phydru coed gyda lefelau amrywiol o ddifrod dŵr i bob ystafell yn yr ysgol. Y swm presennol ar gyfer y gwaith cynnal a chadw wedi'i gronni a fyddai'n hanfodol i wneud YGG Llyn y Forwyn yn ddiogel, yn ddwrglos ac yn gynnes yw dros £1.01 miliwn.

Mae'r safle yn gaeëdig gyda waliau cynnal mawr ar bob ochr ac mae'r dopograffeg ar lethr. Mae'r ysgol yng nghanol ardal breswyl sy'n ei gwneud hi'n heriol cyrraedd y safle. Does dim cyfleusterau parcio ar y safle i staff, a does dim man gollwng ar y safle ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol. Mae'r strydoedd cyfagos yn cael eu defnyddio ar ddiben y ddau beth yma sy'n gallu bod yn heriol ar achlysuron gan ystyried nifer y trigolion a cherbydau preifat yn yr ardal.

Mae topograffeg y safle yn heriol o ystyried manau chwarae caled, awyr agored y safle sydd ar lethr serth. O ganlyniad i hyn, mae staff yn wynebu heriau rheolaidd o ran cynnal gweithgareddau yn yr awyr agored. Rhaid rhoi clod iddyn nhw am wneud yn fawr o'r cyfleusterau sydd ar gael iddyn nhw'n lleol, gan eu bod nhw'n defnyddio'r parc cyfagos i gyflawni agweddau ar y cwricwlwm a chlybiau chwarae ar ôl yr ysgol. Dydy'r sefyllfa yma, er ei bod hi'n ddigonol, ddim yn ddelfrydol.

Mae nifer y disgyblion sydd wedi mynychu YGG Llyn y Forwyn dros y pedair blynedd diwethaf i'w weld isod. Mae'r rhain yn dod o'r Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) y mae'n orfodol i'w gynnal ym mis Ionawr bob blwyddyn. Mae niferoedd a gaiff eu dangos yn eithrio disgyblion o oedran meithrin, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Statudol Llywodraeth Cymru.

<b>YGG Llyn y Forwyn</b>					
	<b>2016</b>	<b>2017</b>	<b>2018</b>	<b>2019</b>	<b>2020</b>
<b>Cyfanswm y disgyblion oed statudol</b>	165	168	167	160	156
<b>Disgyblion meithrin</b>	36	30	21	38	26

Dros y pum mlynedd nesaf, y rhagolygon o ran y nifer o ddisgyblion yn YGG Llyn y Forwyn (sydd wedi'u cyfrifo yn unol ag arweiniad sy'n cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru) yw fel a ganlyn:

	Capasiti'r Ysgol	2020/2021 (Gwirioneddol)	2020/2021	2021/2022	2022/2023	2023/2024	2024/2025	% lleoedd dros ben yn 2024/2025
Disgyblion oed statudol	197	156	150	155	151	148	144	26.9%
Disgyblion meithrin	28	26	33	31	29	32	31	-10.7%

## Beth yw sail y cynnig yma?

Cydnabuwyd yn adroddiad arolygiad Estyn 2019 YGG Llyn y Forwyn fod 'yr ysgol yn gymuned hapus' lle 'mae disgyblion yn defnyddio'r iaith Gymraeg gyda balchder'. Dyma sylw cadarnhaol iawn na fydd yn newid gan y bydd ethos yr ysgol yn cael ei drosglwyddo i'r adeilad ysgol newydd yn y safle newydd. Bydd staff presennol yn aros er mwyn i ddisgyblion barhau i elwa arny'n nhw.

O ganlyniad i'w safle caeëdig ar lethr a chyfyngiadau'r adeilad, does dim modd datblygu YGG Llyn y Forwyn o safbwynt technegol. Ar y cyfan, mae'r safle yn gyfyngedig dros ben. Mae oedran ac adeiladwaith yr adeiladau yn atal yr ysgol rhag derbyn unrhyw waith gwella sylweddol a fyddai'n caniatáu iddi gael ei hystyried yn ddarpariaeth Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif.

Mae'r Cyngor o'r gred bod y cynnig yma'n cynrychioli'r cyfle gorau i ddiogelu a chynnal safonau addysgol ar gyfer y dyfodol a'i fod yn darparu platfform ar gyfer gwelliannau pellach trwy fuddsoddiad sylweddol mewn cyfleusterau parhaol ac addas i'r diben. Bydd y buddsoddiad yma'n creu amgylchedd addysgu a dysgu ysgogol gyda chyfleusterau'r 21ain Ganrif, gan gynnwys darpariaeth TGCh well, manau chwarae awyr agored creadigol a mynediad i gyfleusterau'r gymuned. Bydd y dyluniad yn canolbwyntio ar greu amgylchedd hyblyg sy'n meithrin twf personol disgyblion mewn perthynas â sgiliau cyfathrebu, cydweithio, dawn greadigol ac arweinyddiaeth.

Bydd adeiladau ysgol a chyflawniad ysgol gwell, o bosibl, yn arwain at ragor o ddisgyblion yn manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg yn lleol. Bydd hyn yn cynyddu'r màs critigol ac yn darparu rhagor o gyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon. Bydd amgylchedd ysgol newydd yr 21ain Ganrif yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion a staff a bydd yn darparu cyfleoedd cryfach ar gyfer datblygu ysgol sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

Mae angen gwaith atgyweirio sylweddol ar adeiladau ysgol presennol YGG Llyn y Forwyn a dydyn nhw ddim yn addas i'r diben mwyach. Swm y gwaith cynnal a chadw i'w gwblhau fyddai dros £1.01 miliwn. Does dim gan yr ysgol unrhyw fannau gwyrdd awyr agored. Mae hyn yn cyfyngu ar ehangder y cwricwlwm y mae modd i staff addysgu ei gyflawni y tu allan. Mae buddion dysgu **awyr agored yn y blynyddoedd cynnar wedi cael sylw sylweddol gan y gall hyn arwain at fuddion iechyd a lles cadarnhaol a helpu i gysylltu plant â'r amgylchedd.** Gall dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth hefyd fod yn adnodd defnyddiol ar gyfer addysgu a dysgu. Mae tystiolaeth yn dangos bod hyn yn **codi cyrhaeddiad a chyflawniad, gwella ymddygiad ac ymgysylltu â phob grŵp o blant**, gan gynnwys y rheiny y mae'n anodd ymgysylltu â nhw yn yr ystafell ddosbarth.

Ystyrir y cynnig i wneud newid a reoleiddir i YGG Llyn y Forwyn yn hanfodol oherwydd nad yw adeilad presennol yr ysgol yn addas i'r diben. Safbwynt y Cyngor yw y bydd adeilad ysgol yr 21ain Ganrif newydd, pwrpasol yn helpu'r ysgol i feithrin amgylchedd dysgu ymhellach sy'n cefnogi disgyblion, staff a defnydd o'r iaith Gymraeg.

## **Pa opsiynau eraill sydd wedi cael eu hystyried?**

O ystyried cyfyngiadau safle presennol yr ysgol a thopograffeg heriol dalgylch YGG Llyn y Forwyn, mae nifer yr opsiynau eraill sydd ar gael i'w hystyried yn gyfyngedig.

Cafodd y tir i ochr ogleddol Crib-y-ddôl, Glynrhedynog, CF43 4AD, a gaiff ei alw'n hen Ffatri Chubb yn lleol, ei ddewis fel y lleoliad a ffefrir ar gyfer yr ysgol. Roedd hynny yn dilyn asesiad o nifer o safleoedd o fewn dalgylch YGG Llyn y Forwyn. Cafodd pob safle ei ystyried yn y lle cyntaf o safbwynt ei allu i fodloni'r meini prawf canlynol:

- Bod ag ardal safle ddigonol;
- Bod â mynediad boddhaol y mae modd ei wella;
- Bod heb unrhyw broblemau i'w gweld;
- Bod yn agos i'r ysgol bresennol;
- Bod yn gyfle datblygu dichonadwy yn amodol ar astudiaeth dichonoldeb fanwl.

Yn dilyn yr asesiad safle, cafodd y safle, a gaiff ei alw'n hen Ffatri Chubb yn lleol, ei ddewis oherwydd nifer o resymau gan gynnwys ei faint, y seilwaith presennol, trefniadau mynediad presennol a pha mor agos yw e i'r ysgol bresennol.

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, cafodd opsiynau eraill eu nodi a'u hystyried yn ofalus. Mae rhai buddion ac anfanteision pob opsiwn a gafodd ei ddiystyru i'w gweld yn y tabl canlynol:

Opsiwn	Buddion	Anfanteision
Cadw pethau fel y maen nhw.	<p>Dim buddsoddiad cyfalaf yn ofynnol gan y Cyngor.</p> <p>Dim amharu ar ddisgyblion, rhieni/gwarcheidwaid na staff.</p> <p>Dim effaith ar gludiant o'r cartref i'r ysgol.</p>	<p>Mae agweddau ar adeilad yr ysgol wedi cyrraedd diwedd eu hoes ac mae'r adeilad bellach y tu hwnt i waith atgyweirio economaidd.</p> <p>Ddim o safon ysgolion yr 21ain Ganrif gyda man awyr agored digonol. O ganlyniad i hyn, bydd cyflawni Cwricwlwm newydd i Gymru yn her.</p> <p>Safle anhygyrch – ddim yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.</p> <p>Bydd gwaith cynnal a chadw, gwerth £1.01 miliwn, wedi'i gronni yn parhau.</p> <p>Fydd problemau parcio ddim yn cael eu datrys.</p>
Adeiladu ysgol newydd ar y safle presennol.	<p>Dim effaith ar ddisgyblion o safbwynt pellter teithio.</p> <p>Dim effaith ar gludiant o'r cartref i'r ysgol.</p>	<p>Angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol.</p> <p>Bydd angen defnyddio ystafelloedd dosbarth dros dro yn ystod cyfnod y gwaith adeiladu ac o ystyried cyfyngiadau'r safle, mae'n bosibl y bydd angen eu symud i rywle arall.</p> <p>Mae topograffeg y safle'n cyfyngu ar y gallu i adeiladu ysgol gwbl hygyrch sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif.</p> <p>Mae cyfyngiadau safle'n cyfyngu ar y gallu i wella mannau awyr agored.</p> <p>Fydd problemau parcio ddim yn cael eu datrys o ganlyniad i'r lleoliad.</p>

<p>Creu ysgol cyfrwng Cymraeg 3-19 oed ar safle ysgol gysylltiedig ag YGG Llyn y Forwyn.</p>	<p>Bydd adrannau ysgol mwy yn hyrwyddo rhannu sgiliau ac arbenigedd.</p> <p>Rhagor o gyfleoedd i staff symud rhwng cyfnodau allweddol a datblygu arbenigedd ymhellach.</p> <p>Lleihau'r pryderon sy'n gysylltiedig â'r cyfnod pontio.</p> <p>Gwella ystod ac ansawdd y cyfleusterau ac adnoddau dysgu sydd ar gael er budd y disgyblion i gyd.</p>	<p>Bydd raid i ddisgyblion deithio'n bellach i'r ysgol.</p> <p>Bydd costau cludiant o'r cartref i'r ysgol yn cynyddu.</p> <p>Bydd goblygiadau Adnoddau Dynol i staff.</p> <p>Mae topograffeg safle yr ysgol gysylltiedig yn cyfyngu'n sylweddol ar y gallu i adeiladu ysgol gwbl hygyrch sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif.</p> <p>Does dim modd cynnal effaith traffig cludiant ysgol ychwanegol yn y gymuned a does dim modd i'r safle presennol gynnal cludiant ysgol ychwanegol.</p>
--	--	--

## Buddion ac anfanteision, risgiau a ffactorau lliniaru

Mae'n anochel y bydd unrhyw gynigion sy'n cynnwys ad-drefnu ysgolion yn achosi rhywfaint o darfu ac ansicrwydd. Serch hynny, mae profiad yn dangos bod modd achosi cyn lleied o darfu â phosibl trwy ymgysylltu ystyrion trwy gydol y broses ymgynghori ac, os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig, drwy gydol y broses weithredu hefyd.

Mae buddion ac anfanteision y cynnig i'w gweld isod, yn ogystal â gwybodaeth o ran sut y mae modd i'r Cyngor a'r ysgol reoli unrhyw risgiau a nodir.

<b>Buddion</b>
<p>Bydd ysgol newydd o safon yr 21ain Ganrif yn cyflawni gwelliant sylweddol o ran ansawdd y ddarpariaeth addysgol, gan gael effaith gadarnhaol sylweddol ar gyflawniad addysgol disgyblion ac ysbryd staff.</p>
<p>Bydd yr ysgol yn cael ei dylunio i fod yn effeithlon o ran ynni a bydd ganddi systemau ynni adnewyddadwy gan gynnwys paneli ffotofoltaidd a system casglu dŵr glaw. Bydd yr ysgol yn cael ei hadeiladu yn ôl safonau rhagorol BREEAM, gan gyfrannu at ymrwymiad y Cyngor i fod yn 'Gyngor dim carbon erbyn 2050' a Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd Llywodraeth Cymru.</p>
<p>Bydd gwelliannau traffig sylweddol gan gynnwys maes parcio i staff a man gollwng ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol.</p>

Bydd yr ysgol yn cael ei dylunio i fod yn gwbl hygyrch ac yn ysgol gymunedol gwbl integredig. Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn yr ysgol fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol yn ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl.

Mae gwella agwedd gorfforol darpariaeth cyfrwng Cymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol yn ffactor hanfodol Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg o ran cyfrannu at gyflawni'r darged i gynyddu nifer y plant saith oed sy'n cael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cynnig yma'n enghraifft arall o ymrwymiad y Cyngor i sicrhau bod y targedau yma'n cael eu bodloni.

Bydd y manau allanol yn rhoi cyfle i staff, disgyblion a'r gymuned brofi ystod fwy eang o brofiadau dysgu ac addysgu.

O ystyried lleoliad arfaethedig yr ysgol newydd, rhagwelir na fydd unrhyw gostau teithio ychwanegol.

Mae'r safle arfaethedig o fewn y dalgylch presennol felly fydd dim llawer o darfu ar ddisgyblion, staff na rhieni/gwarcheidwaid.

## Anfanteision

Bydd cost gyfalaf yr ysgol newydd yn sylweddol.

Mae'n anochel y bydd rhai o'r disgyblion a staff yn byw'n bellach o safle'r ysgol newydd.

Gallai symud i safle yr ysgol newydd achosi gorbryder ar gyfer rhai disgyblion, staff a rhieni/gwarcheidwaid.

Risgiau	Tebygolrwydd	Effaith	Camau Lliniaru
Rhieni'n dewis anfon eu plant i ysgol arall	Isel	Isel	Bydd trefnau ymgysylltu â rhieni/gwarcheidwaid yn parhau trwy gydol y cyfnod ymgynghori ac, os bydd y Cabinet yn penderfynu gweithredu'r cynnig, bydd yr ymgysylltu yma'n parhau.

## YGG Llyn y Forwyn – Lle hoffen ni fod...

Mae cynnig wedi'i gyflwyno i adeiladu ysgol newydd ar gyfer YGG Llyn y Forwyn ar y safle sy'n cael ei adnabod yn lleol yn hen safle ffatri Chubb, Glynrhedynog. Bydd yr ysgol yn disodli adeilad presennol yr ysgol a bydd hi ar gyfer plant rhwng 3 a 11 oed sydd eisiau addysg cyfrwng Cymraeg. Ei nifer derbyn arfaethedig fyddai 30 o ddisgyblion fesul grŵp blwyddyn, gyda chyfanswm o 210 o leoedd i ddisgyblion (a'r meithrin).

Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â Bwletin Adeiladu 99, bydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Bydd yr adeilad yn cynnwys:

- Amgylcheddau dysgu modern a hyblyg i'r holl ddisgyblion, neuadd/ardal giniawa fawr, ardal adnoddau dysgu amlbwrpas a chyfleusterau cwbl hygyrch.
- Ardaloedd mewnol ac allanol i'w defnyddio gan y gymuned leol.
- Peth gallu a lle ychwanegol ar gyfer ymyriadau anghenion dysgu ychwanegol.
- Gwell lleoedd awyr agored i gefnogi'r ystod lawn o weithgareddau'r cwricwlwm, gan gynnwys ystafell ddisbarth awyr agored ac ardal 'ysgolion coedwig'.
- Gwell rheolaeth traffig gan gynnwys gollwng disgyblion sy'n teithio ar fysiau ar y safle a maes parcio i'r staff.



*Ardal adnoddau dysgu amlbwrpas neu 'Galon yr Ysgol' mewn Ysgol yr 21<sup>ain</sup> Ganrif wedi'i darparu gan y Cyngor.*





*Ystafell ddosbarth nodweddiadol i blant iau mewn Ysgol yr 21<sup>ain</sup> Ganrif wedi'i darparu gan y Cyngor.*



*Ystafell ddosbarth nodweddiadol i blant iau mewn Ysgol yr 21<sup>ain</sup> Ganrif wedi'i darparu gan y Cyngor.*

Bydd yr ysgol yn cael ei hadeiladu yn unol â Bwletin Adeiladu 99 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion cynradd newydd gynnwys darpariaeth ar gyfer chwaraeon tîm, gan gynnwys man chwarae sy'n addas ar gyfer gemau tîm ar gyfer disgyblion 8 oed a hŷn ac Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGA) ar gyfer chwaraeon fel pêl-fasged a phêl-rwyd. Mae'n ofynnol hefyd i ysgolion newydd gynnwys ardaloedd chwarae meddal – fel arfer man glaswellt – lle gall disgyblion eistedd a chymdeithasu, ochr yn ochr â meysydd chwarae wyneb caled a man dan gysgod i ategu'r ardaloedd chwarae meddal o amgylch safle'r ysgol. Bydd yr ysgol newydd hefyd yn cynnwys ardal gynefin. Bydd yn cael ei defnyddio ar gyfer dysgu awyr agored ac yn darparu adnodd addysgu a dysgu gwerthfawr.



*Golygfa y tu allan i Ysgol Gynradd Cwmaman a gafodd ei hagor gan y Cyngor yn 2018.*



*Enghraifft o MUGA yn Ysgol Gymuned Tonyrefail.*



*Enghraifft o ardal dysgu awyr agored yn Ysgol Gynradd Cwmaman.*

Bydd maes parcio i'r staff ar y safle, yn ogystal â man gollwng pwrpasol ar gyfer cerbydau sy'n cludo plant o'r cartrefi i'r ysgol.

Bydd Cylch Meithrin newydd hefyd yn rhan o safle newydd yr ysgol a bydd yn cynnig sesiynau Cylch Meithrin cyn-ysgol ar gyfer plant 2 i 3 oed. Mae'r ddarpariaeth yma eisoes yn gweithredu ar safle presennol yr ysgol. Serch hynny, gan fod y lle sydd ar gael yn gyfyngedig, mae'r niferoedd yn gymharol isel. Rydyn ni'n rhagweld y bydd gallu cynnig y ddarpariaeth yma mewn cyfleuster newydd sbon yn rhan o safle YGG Llyn y Forwyn yn annog nifer y disgyblion i gynyddu. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod yr iaith yn ddi-dor o safbwynt darpariaeth cyfrwng Cymraeg i blant rhwng 2 ac 11 oed ar un safle ysgol gynradd.

## **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA/WESP)**

Rhaid i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru lunio Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP). Teclyn cynllunio iaith tymor hir yw'r WESP sy'n pennu'r cyfeiriad o ran cynllunio, cyflenwi a thwf strategol addysg cyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg. Trwy'r WESP, cynllunio strategol effeithiol a buddsoddiad, nod y Cyngor yw cyfrannu'n sylweddol at gyflawni'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 fel sydd wedi'i nodi yn nogfen Cymraeg 2050. Mae modd darllen WESP cyfredol RhCT a'i lawrlwytho o wefan y Cyngor:

<https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/WelshServices/Relateddocs/CynllunStrategolyGymraegmewnAddysg20172020.pdf>

Mae'r WESP deng mlynedd newydd ar gyfer y cyfnod rhwng 2022 a 2032 yn cael ei ysgrifennu ar hyn o bryd a bydd yn destun proses ymgynghori statudol yn y man. Ymhlith y rhestr o ddatblygiadau strategol, camau gweithredu a deilliannau y bydd y Cyngor yn ymgymryd â nhw i helpu i gyflawni'r targedau sydd wedi'u nodi yn y WESP, mae:

- Adeiladau ysgol newydd a gwell sydd â lefelau priodol o leoedd ar gael i fodloni'r rhagolygon o ran y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eu dalgylchoedd.

Bydd y cynnig i drosglwyddo YGG Llyn y Forwyn i adeilad pwrpasol Ysgol yr 21<sup>ain</sup> Ganrif sydd â mwy o leoedd ar gael yn cyfrannu at nod RhCT o gynyddu nifer y disgyblion blwyddyn un sy'n cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd y cynnig yma'n ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion barhau â'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth y Gymraeg.

## Trefniadau Derbyn Disgyblion

Fydd dim newidiadau i ddalgylch YGG Llyn y Forwyn. Bydd yr ysgol yn darparu ar gyfer plant rhwng 3 ac 11 oed sydd eisiau addysg gynradd cyfrwng Gymraeg. Ei nifer derbyn arfaethedig fyddai 30 o ddisgyblion fesul grŵp blwyddyn, gyda chyfanswm o 210 o leoedd i ddisgyblion (a'r meithrin).

Os bydd rhagor o geisiadau yn dod i law na nifer y lleoedd sydd ar gael, caiff meini prawf wedi'u cyhoeddi ar gyfer derbyn disgyblion eu rhoi ar waith mewn perthynas â phob cais sy'n dod i law. Mae hyn er mwyn pennu'r disgyblion sydd wedi bod yn llwyddiannus o ran sicrhau'r lleoedd sydd ar gael. Dyma'r meini prawf sydd wedi'u nodi yn ôl blaenoriaeth yn ein llyfryn polisi derbyn disgyblion 'Dechrau'r Ysgol':

- Categori 1 – Plant dan adain gofal y Cyngor (plant sy'n derbyn gofal cyhoeddus) a phlant sydd wedi bod dan adain gofal y Cyngor.
- Categori 2 – Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol, sydd â brawd neu chwaer hŷn sy'n ddisgybl yn yr ysgol honno, sy'n byw yn yr un cartref â nhw pan fydd y cais yn cael ei gyflwyno ac a fydd yn parhau i fynychu'r ysgol honno ar ddyddiad disgwylidig derbyn y plentyn iau.
- Categori 3 – Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol heb frawd neu chwaer hŷn yn yr ysgol.
- Categori 4 – Plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol, sydd â brawd neu chwaer hŷn sy'n ddisgybl yn yr ysgol honno, sy'n byw yn yr un cartref â nhw pan fydd y cais yn cael ei gyflwyno ac a fydd yn parhau i fynychu'r ysgol honno ar ddyddiad disgwylidig derbyn y plentyn iau.
- Categori 5 – Plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol heb frawd neu chwaer hŷn yn yr ysgol.

Mae 'cartref' mewn perthynas â'r meini prawf uchod yn cyfeirio at leoliad/cyfeiriad penodol y cartref lle mae'r plentyn yn byw.

Bydd y plant yn cael eu derbyn i'r ysgol hyd at y Nifer Derbyn wedi'i Chyhoeddi, yn nhrefn y blaenoriaethau uchod. Os does dim modd cynnig lle i bob un o'r ymgeiswyr o fewn unrhyw un o'r categorïau sydd wedi'u rhestru uchod, caiff blaenoriaeth ei rhoi i blant sy'n byw agosaf at yr ysgol. Caiff y pellter ei fesur yn ôl y llwybr cerdded mwyaf diogel a byr rhwng drws blaen y cartref a'r giât agosaf sydd ar agor yn yr ysgol. Mewn ardaloedd lle does dim llwybr cerdded diogel wedi'i nodi gan yr Awdurdod Lleol, bydd yr Awdurdod Lleol yn mesur y pellter yn ôl y daith gyrru fwyaf byr rhwng drws blaen y cartref a'r giât agosaf sydd ar agor yn yr ysgol. Bydd y pellter yn cael ei fesur gan ddefnyddio System Mapinfo yn unig. Fydd mesurau wedi'u cyfrifo gan unrhyw system

arall ddim yn cael eu hystyried. Yn achos rhieni/gwarcheidwaid sy'n rhannu cyfrifoldebau gofal am blentyn, y cyfeiriad ar gyfer talu Budd-dal Plant fydd y cyfeiriad i'w gymryd i ystyriaeth.

## Effaith debygol y cynnig

### Y sail addysgol ar gyfer y cynnig

Mae'r cynnig yma'n rhan o Raglen Buddsoddi ehangach Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif y Cyngor. Mae'n cyfrannu at ddarpariaeth ysgolion cynaliadwy sy'n addas ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif ac yn cefnogi rheolaeth strategol well o eiddo addysg y Cyngor.

Yn ychwanegol at yr amcan yma, dylai cynigion i newidiadau sefydliadol ysgolion dynnu sylw at y manteision addysgol y bydd unrhyw newid yn eu cynnig, yn arbennig mewn perthynas â gwella safonau'n gyffredinol, ond hefyd o ran datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant, a fyddai fel arfer yn cael effaith ffafriol ar eu cyflawniad a'u deilliannau cyffredinol.

Cafodd YGG Llyn y Forwyn ei harolygu gan Estyn ym mis Ionawr 2019 ac roedd cyflawniad yr ysgol yn y pum maes arolygu bryd hynny fel a ganlyn:

Maes arolygu	Dyfarniad
Safonau	Da
Lles ac Agweddau tuag at Ddysgu	Da
Profiadau Addysgu a Dysgu	Da
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arwain a rheoli	Da

Yn ogystal â hyn, nododd Estyn argymhellion i'r ysgol eu rhoi ar waith er mwyn adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd at adeg yr Adolygiad. Roedd argymhellion Estyn fel a ganlyn:

- A1** Sicrhau cyfleoedd priodol i ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ddewis eu dysgu fel eu bod yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol.
- A2** Gwella sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion.
- A3** Sicrhau bod athrawon Cyfnod Allweddol 2 yn darparu cwricwlwm cytbwys ac yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth wyddonol disgyblion yn benodol.

Barn y Cyngor yw y byddai trosglwyddo YGG Llyn y Forwyn i adeilad ysgol pwrpasol newydd sy'n addas ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif yn helpu'r ysgol o ran ei chynnydd tuag at gyflawni'r argymhellion yma ac yn cael effaith gadarnhaol o werth ar bob un o bum maes arolygu Estyn, fel a ganlyn:

1. **Safonau** – Byddai adeilad ysgol newydd sy'n addas ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif yn darparu lleoedd addysgu gwell i staff a disgyblion, meysydd adnoddau pwrpasol, amgylcheddau dysgu sy'n ysgogi disgyblion ac offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu o'r radd flaenaf. Byddai pob

un o'r rhain yn helpu'r ysgol i godi'i safonau a chyflawni argymhelliad Estyn o wella sgiliau TGCh disgyblion.

2. **Lles ac Agweddau tuag at Ddysgu** – Mae manau awyr agored safle presennol yr ysgol yn gyfyngedig iawn a does dim manau gwyrdd. Byddai trosglwyddo YGG Llyn y Forwyn i safle newydd yn darparu manau awyr agored helaeth, gan gynnwys man gwyrdd, i ddisgyblion ddysgu a chwarae ynddyn nhw. Barn y Cyngor yw y byddai lles ac agweddau disgyblion at ddysgu yn elwa ar gael man awyr agored amrywiol maen nhw'n gallu ymgysylltu â hi.
3. **Profiadau Addysgu a Dysgu** – Byddai adeiladu ysgol addas at y diben yn sicrhau bod modd i staff ddarparu cwricwlwm cytbwys ar bob cyfnod allweddol yn unol â'r Cwricwlwm newydd i Gymru - 2022, yn enwedig ym meysydd addysg gorfforol, Gwyddoniaeth a ThGCh. Byddai hyn yn cefnogi'r ysgol wrth gyflawni trydydd argymhelliad Estyn. Bydd amgylchedd dysgu'r 21<sup>ain</sup> Ganrif hefyd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ddisgyblion ac felly mwy o ddewis yn eu profiad dysgu, gan gefnogi'r ysgol i wneud cynnydd tuag at argymhelliad un.
4. **Gofal, Cefnogaeth ac Arweiniad** – Bydd adeilad newydd Ysgol yr 21<sup>ain</sup> Ganrif yn galluogi'r ysgol i wella ar sylfaen yr arferion gwaith da a'r mentrau sydd gydag YGG Llyn y Forwyn ar waith eisoes. Bydd darparu amgylchedd allanol sydd wedi'i wella'n sylweddol a manau gwyrdd yn rhoi cyfleoedd i ddatblygu gweithgareddau allgyrsiol ymhellach i annog ffyrdd iach o fyw i gymuned yr ysgol. Bydd adeilad cwbl hygyrch a darpariaeth manau hyblyg yn golygu bydd modd i'r ysgol ymestyn ei harfer da i hwyluso ymgysylltiad pellach â theuluoedd. Bydd yr adeilad newydd yn caniatáu i'r ysgol feithrin dyfu a meithrin yr agwedd yma ar ei hethos yn sylweddol.
5. **Arwain a Rheoli** – Byddai adeilad ysgol pwrpasol yn caniatáu i'r Garfan Arweinyddiaeth sydd eisoes yn effeithiol yn YGG Llyn y Forwyn ganolbwyntio mwy ar weithio tuag at argymhellion Estyn. Byddai'n dileu'r baich o waith cynnal a chadw drud a llafurus yn adeilad presennol yr ysgol, a byddai'n caniatáu i staff ganolbwyntio ar ddarparu'r addysgu, y dysgu a'r deilliannau gorau i'w disgyblion.

Yn ogystal â hyn, byddai'r ysgol newydd, a fyddai'n cael ei hadeiladu i safonau Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif, yn cael effaith gadarnhaol ar allu'r ysgol i ddarparu'r cwricwlwm llawn yn y Cyfnod Sylfaen a phob Cyfnod Allweddol o addysg. Fyddai dim cyfyngiadau yn hyn o beth.

## **Beth fydd effaith debygol y cynigion ar ddisgyblion?**

Rydyn ni'n rhagweld fydd y newidiadau arfaethedig ddim yn cael effaith andwyol ar ddisgyblion. I'r gwrthwyneb, bydd nifer o fanteision – y prif newid fydd gwella ansawdd y lleoliad addysg, a dylai hyn gael effaith sylweddol ar gyflawniad addysgol y disgyblion.

Fydd dalgylch yr ysgol gynradd newydd ddim yn newid, h.y. bydd yn parhau i fod yr un peth â dalgylch presennol YGG Llyn y Forwyn. Mae nifer o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y dalgylch ymhlith y mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn ôl Adroddiad Mynegai Amddifadedd Lluosog 2019.

Bydd polisi'r Cyngor ynghylch darpariaeth cludiant o'r cartref i'r ysgol yn parhau i fod yn gymwys. Does dim gwahaniaeth yn yr amser mae'n cymryd i deithio i safle newydd yr ysgol gan ei fod yn agos at yr ysgol bresennol. Efallai y bydd taith i'r ysgol rhai disgyblion ychydig yn hirach ond bydd gan lawer un daith fyrrach. At ei gilydd, rydyn ni o'r farn bod yr effaith ar drefniadau teithio disgyblion yn niwtral.

Mae Llywodraeth Cymru a'r Cyngor wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Caiff y rhain eu mynegi drwy saith nod craidd, hynny yw, bod pob plentyn a pherson ifanc:

1. Yn cael y dechrau gorau mewn bywyd;
2. Yn cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu.
3. Yn mwynhau'r iechyd gorau posibl ac yn ddiogel rhag cael eu cam-drin, eu herlid a rhag i neb gam-fanteisio arnyn nhw.
4. Yn cael mynediad i weithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliannol.
5. Yn cael dweud eu dweud, eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod.
6. Â chartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol.
7. Heb fod o dan anfantais oherwydd tlodi.

Mae'r Cyngor o'r farn bod y cynnig yma o fudd i'r disgyblion sy'n mynychu YGG Llyn y Forwyn yn unol â'r saith nod craidd wedi'u nodi uchod.

Mae rhagor o wybodaeth am effaith debygol y cynigion ar ddisgyblion, gan gynnwys sut mae'r cynnig yn cyfrannu at bob un o saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, yn ogystal ag asesiad o'r cynnig ar y pum ffordd o weithio ar gael yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn Atodiad B.

### **Beth fydd effaith debygol y cynigion ar y staff?**

Wrth wneud y newid arfaethedig, fydd y mwyafrif o bethau ddim yn newid i'r staff o gwbl. Bydd yr ysgol, gan gynnwys yr holl staff, yn adleoli gyda'i gilydd, felly does dim goblygiadau Adnoddau Dynol o ganlyniad i roi'r cynigion yma ar waith. Yn wir, y disgwyl yw y bydd y newid arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar staff.

Y prif newid fydd gwella ansawdd y lleoliad addysgu a'r amgylchedd gwaith. O ganlyniad i hyn, rydyn ni'n rhagweld y bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar ysbryd a lles y staff, ac yn helpu i'w cadw yn yr ysgol.

### **Beth yw goblygiadau ariannol y cynnig?**

Ar hyn o bryd, does dim diffyg yng nghyllideb YGG Llyn y Forwyn a does dim tystiolaeth y bydd y cynigion yma'n effeithio ar y sefyllfa ariannol gadarnhaol yma. Yn ogystal â hyn, does dim cynnydd yng nghostau cludiant o'r cartref i'r ysgol yn cael eu rhagweld.

Er y bydd peth arbedion yn cael eu nodi o ystyried fydd dim gwaith cynnal a chadw'r ysgol newydd - ac yn bwysicach fyth yn fwy effeithlon o ran ynni, sy'n wahanol iawn i gyflwr gwael adeilad presennol yr ysgol - rydyn ni'n rhagweld y bydd cynnydd yn yr ardrethi sy'n daladwy ar gyfer adeilad newydd yr ysgol. Does dim modd bod yn fanwl gywir ynghylch costau refeniw'r dyfodol, gan eu bod yn dibynnu ar benderfyniadau'r Corff Llywodraethu yn y dyfodol hefyd. Serch hynny, yn ôl y rhagolygon, bydd unrhyw gynnydd o ran costau ac unrhyw arbedion yn negyddu'r llall. O ganlyniad i hyn, fyddai dim newid i'r gyllideb yn gyffredinol. Yr hyn sy'n sicr yw y bydd y cynnig yma'n dileu swm cynnal a chadw sylweddol o dros £1.01 miliwn sydd wedi'i chronni dros amser ac yn dileu costau o ddydd i ddydd sy'n gysylltiedig â'r adeiladau sy'n methu.

Bydd y cynnig yma'n darparu ysgol newydd ar gyfer YGG Llyn y Forwyn. Amcangyfrif y gost cyfalaf yw £8.5 miliwn. Bydd yr elfen gyfalaf yma o'r cynnig yn cael ei hariannu gan Raglen Buddsoddi

Cyfalaf y Cyngor. Caiff costau'r prosiect eu datblygu ochr yn ochr â'r broses ymgynghori a chaiff cymeradwyaeth ei cheisio yn unol â gweithdrefnau'r Cyngor o ran dod i benderfyniadau.

## Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol

Mae'n ddyletswydd statudol ar bob Awdurdod Lleol yng Nghymru i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion i'w hysgolion addas agosaf os ydyn nhw'n byw pellter sydd y tu hwnt i 'bellter cerdded' o'r ysgol honno. Mae'r term 'ysgol addas' yn cyfeirio at ddalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg, ysgol prif ffrwd wirfoddol gymorthedig (yr Eglwysi) neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo'n briodol. Mae'r gyfraith yn diffinio 'pellter cerdded' yn ddwy filltir i ddisgyblion o oedran addysg gynradd gorfodol a thair milltir i bob disgybl o oedran addysg uwchradd gorfodol.

Mae'r Cyngor wedi defnyddio'r disgrisiwn sydd wedi'i roi iddo gan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, a chynnig darpariaeth fwy hael i ddisgyblion. Mae'r wybodaeth berthnasol mewn perthynas ag YGG Llyn y Forwyn wedi'i nodi isod:

- Mae'r maen prawf ar gyfer pellter cerdded i ddisgyblion sy'n derbyn addysg gynradd orfodol yn eu hysgol addas agosaf wedi cael ei osod ar 1½ milltir, yn hytrach na 2 filltir fel sy'n ofynnol gan y Mesur.
- Mae cludiant am ddim i'w hysgol addas agosaf, lle mae lleoedd ar gael, yn cael ei ddarparu i ddisgyblion sy'n bodloni'r maen prawf 1½ milltir o ddechrau'r Cyfnod Sylfaen (dechrau'r tymor ysgol ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed), yn hytrach nag o ddechrau addysg orfodol (dechrau'r tymor ysgol ar ôl eu pen-blwydd yn 5 oed) fel sy'n ofynnol gan y Mesur.
- Mae'r term 'ysgol addas' yn cyfeirio at ddalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg, ysgol prif ffrwd wirfoddol gymorthedig (yr Eglwysi) neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo'n briodol.

Mae gwybodaeth lawn y Cyngor mewn perthynas â darpariaeth cludiant o'r Cartref i'r Ysgol ar gael i'w darllen a'i lawrlwytho o wefan y Cyngor:

<https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/ParkingRoadsandTravel/Travel/SchoolandCollegeTransport/SchoolTransport.aspx>

## Gwybodaeth am dir ac adeiladau

Os caiff y cynigion sydd wedi'u hamlinellu yn y ddogfen yma eu rhoi ar waith, fydd dim angen safle presennol yr ysgol. Gan mai proses ymgynghori gychwynnol yw hon, does neb wedi dod i benderfyniad eto o ran dyfodol y safleoedd a'r adeiladau yma. Bydd y mater yma yn cael ei reoli yn unol â Pholisi'r Cyngor ar Dir ac Adeiladau Gwag.



Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd gyfreithiol y Cyngor o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i helpu i ddod i benderfyniad ynglŷn â'r cynnig isod, byddai'n ddefnyddiol iawn pe bai modd i chi ateb y cwestiynau canlynol. Nodwch na fyddwn ni'n rhannu unrhyw wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu. Caiff ei defnyddio at ddibenion rhoi adborth i chi yn unig, a hynny yn ôl y gofyn. Caiff unrhyw sylwadau mae modd eu defnyddio i'ch adnabod chi eu nodi'n ddienw yn adroddiad yr ymgynghoriad. Anfonwch eich holiadur wedi'i gwblhau at:

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant  
Carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif  
Tŷ Trevithick  
Abercynon  
CF45 4UQ

Neu

Drwy e-bost: [cynllunioysgolion@rhondda-cynon-taf.gov.uk](mailto:cynllunioysgolion@rhondda-cynon-taf.gov.uk)

## Y Cynnig

Adleoli YGG Llyn y Forwyn o'i safle presennol i adeilad ysgol fydd yn cael ei adeiladu o'r newydd ar dir Ochr Ogleddol Highfield, Glynrhedynog, CF43 4AD, sy'n cael ei adnabod yn lleol fel yr hen ffatri Chubb.



Ydych chi'n cytuno â chynnig 1?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn siŵr

Nodwch y rhesymau dros eich dewis

---

---

---

---

---

---

---

---

● Ydych chi o'r farn y gallai'r cynnig effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg (Cadarnhaol neu Negyddol)?

---

---

---

---

---

---

● Ydych chi o'r farn bod y cynnig mewn unrhyw ffordd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

---

---

---

---

---

---

● Sut byddai modd cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol ar y Gymraeg?

---

---

---

---

---

---

Nodwch unrhyw sylwadau neu faterion eraill yr hoffech chi i ni'u hystyried (atodwch ddalennau ychwanegol os oes angen)

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

Nodwch pwy ydych chi (e.e. rhiant/gwarcheidwad disgybl yn yr ysgol sy'n cael ei henwi, llywodraethwr yr ysgol sy'n cael ei henwi ac ati)

Enw (dewisol):

---

Rhowch fanylion cyswllt os ydych chi'n dymuno cael gwybod am gyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad

---

Anfonwch holiaduron wedi'u cwblhau i'r cyfeiriad uchod erbyn dydd Gwener, 30 Ebrill 2021 fan bellaf.

---

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gadw'ch gwybodaeth bersonol yn ddiogel, yn ogystal â rhoi gwybod i chi ynghylch sut rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth. I ddysgu am sut rydyn ni'n diogelu'ch preifatrwydd, a sut a pham rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol i ddarparu gwasanaethau ar eich cyfer chi, darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd (Ymgynghori) yma:


<https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/DataProtectionandFreedomofInformation/DataProtection/serviceprivacynotices/ChiefExecutives/ConsultationPrivacyNotice.aspx>

Ac hefyd:

<https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/DataProtectionandFreedomofInformation/DataProtection/DataProtection.aspx>







## **Atodiad 2**

### **Nodiadau o'r cyfarfod a gynhaliwyd gyda'r Corff Llywodraethu ac Aelodau o Staff Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn y Forwyn.**

**Dydd Mawrth 16 Mawrth 2021, 3.45pm**

### **Cyfarfod i drafod y newid rheoleddig arfaethedig i symud YGG Llyn-y-Forwyn i adeilad newydd ar safle newydd**

#### **Swyddogion RhCT canlynol yn bresennol**

Gaynor Davies (GD) - Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant

Andrea Richards (AR) – Cyfarwyddwr Dros Dro – Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid

Lisa Howell (LH) - Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion

Sophie Nicholls (SN) - Swyddog Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif

Laura Britton (LB) - Swyddog Graddedig Carfan Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif

#### **Nodiadau**

Fe gyflwynodd GD bawb yn ffurfiol.

Croesawodd GD bawb i'r cyfarfod ac amlinellodd y newidiadau arfaethedig sydd wedi'u nodi yn y Ddogfen Ymgynghori. Sef:

Gwneud newid rheoleiddiedig i Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn y Forwyn (YGG Llyn y Forwyn), trwy symud yr ysgol i adeilad newydd sbon ar safle newydd.

Cynigir adeiladu adeilad newydd yr ysgol ar y tir i'r ochr ogleddol o Grib-y-ddôl, Glynrhedynog, CF43 4AD, a gaiff ei alw'n hen Ffatri Chubb yn lleol.

Cynigir y bydd y newid a reoleiddir yn cael ei wneud erbyn mis Mawrth 2024.

Fe bwysleisiodd GD hefyd y gwahaniaeth rhwng y cyfnod ymgynghori a chyfnod gwrthwynebu a chadarnhaodd amserlen y broses ymgynghori yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Fe rododd GD gyfle i'r staff a'r llywodraethwyr ofyn cwestiynau.

**Sylwadau:** *Mae'n braf bod pwysigrwydd addysg cyfrwng Gymraeg wedi'i gydnabod a bod y gydnabyddiaeth yma'n cael ei hadlewyrchu yn y buddsoddiad. Mae'n drueni gadael yr hen ysgol ond mae symud i adeilad newydd yn brofiad cyffrous i bawb.*

**Ymateb:** Cytunodd GD, gan nodi bod arolygon cyflwr adeiladau yn cyfrannu at lywio Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif. Yn ogystal â hyn, mae ymrwymiad i gynyddu siaradwyr



Cymraeg ledled y sir ac mae'n bwysig i ddatblygiad y Gymraeg fod plant yn cael eu cyflwyno i'r iaith yn ystod y cyfnod blynyddoedd cynnar.

**Cwestiwn:** *Beth a olygir gan fuddion cymunedol ehangach o ganlyniad i'r buddsoddiad, ac a yw hyn mewn perthynas â'r cyfleusterau ysgol fydd yn cael eu llogi?*

**Ymateb:** Nododd Gaynor Davies fod y Cyngor yn annog y gymuned ehangach i ddefnyddio'r cyfleusterau ysgol yn rhan o fuddsoddiad Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif.

Dywedodd AR y byddai'r dyluniad newydd yn cynnwys cyfleusterau y mae modd i gymunedau eu defnyddio e.e. cyfleusterau chwaraeon a chyfleusterau TG. Bydd y cynlluniau yma hefyd yn ystyried materion diogelu, a bydd ardaloedd gwahanol yn cael eu cadw ar wahân er mwyn cadw'r plant a'r gymuned yn ddiogel.

**Cwestiwn:** *A fydd mynedfa newydd i'r ysgol newydd trwy'r ystâd ddiwydiannol?*

**Ymateb:** Dywedodd GD y bydd Aseiad Effaith Traffig yn cael ei gynnal a bydd angen i'r aseiad adlewyrchu anghenion yr ysgol a'r gymuned, felly ar hyn o bryd, does dim modd cadarnhau'r manylion.

Dywedodd AR y bydd yr Aseidiadau Effaith Traffig yn rhan o'r broses o wneud cais cynllunio ac o'r herwydd bydd pob un sy'n rhan o'r ymgynghoriad yn rhan o'r broses yma ac yn cael cyfle i wneud sylwadau.

Dywedodd LH y bydd yr aseidiadau'n edrych y tu hwnt i'r safle ac yn cynnwys yr ardal ehangach. Bwriad hyn yw sicrhau bod unrhyw newidiadau nid yn unig o fudd i'r ysgol ond i'r gymuned ehangach hefyd. Mae modd i hyn gynnwys cyflwyno mesurau arafu traffig a chyfyngiadau cyflymder i sicrhau llwybr a mynediad diogel i safle newydd yr ysgol.

**Sylwadau:** *Bu sôn bod trigolion sy'n byw gerllaw'r safle newydd wedi codi pryderon ynghylch newidiadau traffig.*

**Ymateb:** Ailadroddodd GD fod y Cyngor yn croesawu unrhyw sylwadau cadarnhaol a negyddol a bod yr holl safbwyntiau yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet. Anogodd lywodraethwyr ac aelodau o'r gymuned i lenwi'r holiadur ar-lein sy'n casglu barn pobl.

Cadarnhaodd y Pennaeth (Petra Davies) fod yr holiadur wedi'i ddosbarthu i staff a rhieni i bawb ei lenwi.

Sicrhaodd AR fod pawb yn gwybod bod modd i'r garfan rannu manylion cyswllt swyddog Adnoddau Dynol i helpu'r aelodau o staff sydd eisiau codi materion ynghylch y cynnig.

Daeth GD y cyfarfod i ben gan ddweud fod y Cyngor yn gallu cynnig cyngor ac arwain staff trwy'r broses ymgynghori yma, a phwysleisiodd bwysigrwydd cymryd y cyfle yma i rannu'u barn.

Diolchwyd i bawb a gymerodd ran.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.25pm.

**Nodiadau o'r cyfarfod a gynhaliwyd gyda disgyblion Ysgol Gynradd Gymraeg  
Llyn y Forwyn.**

**Dydd Iau 22ain Ebrill 2021, 13:30**

**Cyfarfod i drafod y newid rheoledig arfaethedig i adleoli YGG Llyn y Forwyn i  
adeilad newydd ar safle newydd**

**Swyddogion RhCT yn bresennol**

Gaynor Davies (GD) - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant

Andrea Richards (AR) - Cyfarwyddwr Gwasanaeth Dros Dro Ysgolion a Thrawsnewid yr  
21ain Ganrif

Lisa Howell (LH) - Rheolwr Trefniadaeth Busnes ac Ysgol

Sophie Nicholls (SN) - Swyddog Ysgolion yr 21ain Ganrif

Laura Britton (LB) - Swyddog Graddedig Ysgolion yr 21ain Ganrif

**Nodiadau**

Cyflwynodd GD y tîm o swyddogion y Cyngor ac eglurodd pwrpas y cyfarfod i'r disgyblion. Aeth GD ymlaen i egluro manylion y cynnig mewn modd cyfeillgar i blant er mwyn sicrhau ymgysylltiad a dealltwriaeth disgyblion. Nododd GD nad oedd penderfyniad ffurfiol wedi'i wneud eto ac mai pwrpas y cyfarfod oedd darganfod beth oedd barn y disgyblion am y newidiadau arfaethedig.

Yna chwaraewyd fersiwn Cymraeg o'r fideo ymgynghori i'r disgyblion.

Cadarnhaodd yr holl ddisgyblion eu bod wedi cael eu rhoi a'u bod wedi darllen copi o ddogfen ymgynghori'r person ifanc.

Gofynnodd GD i'r disgyblion am eu cwestiynau

**Cwestiwn:** Dywedodd disgybl yr hoffent gael ardal amlsynhwyraidd yn yr ysgol newydd i bobl ei defnyddio. Roeddent am weld fidgets a goleuadau a phethau i gadw pobl yn ddigynnwrf.

**Ymateb:** Diolchodd GD i'r disgybl a nododd fod hwn yn syniad hyfryd.

**Cwestiwn:** Dywedodd disgybl ei fod eisiau ardal chwaraeon newydd gan nad yw ei iard bresennol yn wastad a dim ond cylchoedd a nodau sydd ganddyn nhw.

**Ymateb:** Nododd AR fod gan rai o Ysgolion newydd yr 21ain Ganrif ardaloedd awyr agored mawr o'r enw MUGA's, Ardaloedd Gêm Aml-ddefnydd, y gellir eu defnyddio ar gyfer llawer o chwaraeon gan gynnwys pêl-rwyd, pêl-fasged a phêl-droed. Dywedodd AR fod y Cyngor yn bendant yn bwriadu adeiladu iard wastad ar safle'r ysgol newydd gyda rhai ardaloedd glaswelltlog i'r disgyblion eu defnyddio.

**Cwestiwn:** Gofynnodd disgybl a allai gael glaswellt ffug.

**Ymateb:** Nododd LH fod tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif yn edrych ar lawr bob safle i sefydlu beth yw'r opsiwn gorau i'r ysgol honno, os a yw hynny'n ffug neu'n laswellt go iawn. Dywedodd LH, os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, bydd y tîm yn dod yn ôl at y disgyblion ac yn cael trafodaethau pellach ynghylch yr hyn yr hoffent ei gael yn eu hysgol newydd.

**Sylw:** Dywedodd disgybl ei fod eisiau cyfrifiaduron newydd.

**Ymateb:** Ymatebodd SN gan nodi bod pob ysgol newydd yn cael byrddau gwyn rhyngweithiol newydd sbon i staff a disgyblion eu defnyddio yn ystod gwersi. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod gan athrawon gyfrifiaduron newydd i ddysgu eu gwersi a bydd gan ddisgyblion gyfrifiaduron newydd i'w defnyddio yn eu gwersi.

**Sylw:** Dywedodd disgybl ei fod eisiau cwrt pêl-fasged.

**Ymateb:** Dywedodd LH, os ydy'r cynnig yn llwyddiannus, bydd y tîm yn gofyn pa farciau chwaraeon y mae'r disgyblion eu heisiau yn ardal MUGA y soniwyd amdani o'r blaen. Os ydyn nhw eisiau pêl-fasged yna gallwn ni sicrhau bod ganddyn nhw marciau bêl-fasged.

Dywedodd GD y bydd disgyblion ym mlwyddyn pump a chwech yn colli'r ysgol newydd os aiff y cynnig ymlaen. Fodd bynnag, bydd mynediad cymunedol i'r ardaloedd awyr agored felly byddent yn gallu defnyddio'r iardiau newydd hyn hyd yn oed pan nad ydyn nhw'n ddisgyblion mwyach.

**Cwestiwn:** Gofynnodd disgybl a fyddai ardal LEGO yn yr ysgol newydd.

**Ymateb:** Nododd GD y byddai'r ysgol newydd yn darparu llawer o le i ddisgyblion a staff greu gwahanol gorneli dysgu i weddu i anghenion unigol. Gallai un o'r corneli dysgu fod yn LEGO os mai dyna oedd y staff a'r disgyblion ei eisiau.

**Cwestiwn:** Gofynnodd disgybl a fyddai llyfrgell.

**Ymateb:** Nododd LB y byddai llyfrgell yn yr ysgol newydd.

**Sylw:** Dywedodd disgybl yr hoffent i'r ysgol newydd gael iard gyda llawer o goed i ddarparu ocsigen ac ardal i blannu llysiau.

**Ymateb:** Nododd AR fod y Cyngor eisiau helpu i leihau faint o garbon sydd yn yr atmosffer felly byddai plannu llawer o goed i amsugno'r carbon yn syniad gwych. Dywedodd AR, os yw'r cynnig yn symud ymlaen, byddai'r disgyblion yn gallu helpu i ddylunio'r ardal awyr agored.

**Cwestiwn:** Gofynnodd disgybl a fyddai'r holl athrawon yn YGG Llyn y Forwyn yn symud i'r ysgol newydd.

**Ymateb:** Cadarnhaodd GD y bydd yr holl ddisgyblion a bydd yr holl athrawon ac aelodau staff yn gallu symud i'r ysgol newydd pe byddent am wneud hynny gan bod y cynnig hwn yn adleoliad ac nid yn gau ysgol.

**Cwestiwn:** Gofynnodd disgybl a fyddent yn gallu cadw'r un wisg ar y safle newydd.

**Ymateb:** Dywedodd GD mae'r staff, y llywodraethwyr a'r disgyblion oedd yn gyfrifol am y dewis hwn.

Dywedodd AR y byddent yn cael cyfle i newid y bathodyn pe byddent am wneud hynny, ond yr ysgol sydd i benderfynu.

Dyweddodd Petra Davies (Pennaeth) fod rhieni a disgyblion wedi gofyn am gael gwisg ysgol gyda thei a chrys, ond mai hwn fyddai'r unig newid posib. Dywedodd Petra Davies fod bathodyn YGG Llyn y Forwyn yn dynodi chwedl leol ac yr hoffent cadw hynny i gadw hanes yr ysgol yn fyw. Hefyd, nododd fod cefnogaeth rhieni a chefnogaeth gymunedol ynglŷn â'r cynnig hwn wedi bod yn fendigedig.

**Cwestiwn:** Gofynnodd disgybl a fydd posteri ac arwyddion ar gyfer gwahanol ardaloedd yn yr ysgol newydd.

**Ymateb:** Cadarnhaodd GD y bydd y Cyngor yn sicrhau bod pob ardal wedi'i chyfeirio'n glir ac yn gywir.

Diolchodd Gaynor Davies i bawb am y cyfraniadau rhyfeddol ac am rannu eu barn mor agored a gonest.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:30.

## **Atodiad 3**

### **Ymateb Estyn i'r cynnig i wneud newid a reoleiddir a throsglwyddo Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn y Forwyn i adeilad newydd ar safle newydd**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

Y cynnig yw cynnal addasiad rheoledig, a throsglwyddo Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn y Forwyn i adeilad newydd ar safle newydd.

### **Crynodeb/Casgliad**

Mae Estyn o'r farn bod y cynnig yn debygol o gynnal safon darpariaeth addysg yn yr ardal, o leiaf.

### **Disgrifiad a manteision**

Mae'r awdurdod lleol wedi amlinellu sail resymegol glir ar gyfer ei gynnig. Mae'n amlinellu'n gryf fanteision niferus adeiladu ysgol newydd, wrth nodi bod cyflwr yr adeilad presennol ar y lefel isaf, bod y to'n dod at ddiwedd ei oes naturiol, ac nad yw adeiladau'r ysgol yn hygyrch nac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r ffigur cyfredol ar gyfer y gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni, a fyddai'n hanfodol i wneud yr ysgol yn ddiogel, yn ddwrglos ac yn gynnes, dros E1 .01 miliwn. Er bod yr awdurdod lleol yn rhoi disgrifiad Clir o'r cynnig ac amserlen ragamcanol ar gyfer gweithdrefnau statudol, nid yw'n nodi amserlen ar gyfer rhoi'r cynigion ar waith, heblaw y bydd y dyddiad gweithredu ar gyfer trosglwyddo i'r ysgol newydd ddim hwyrach na mis Mawrth 2024.

Ar y cyfan, mae'r cynigiwr yn nodi'r manteision a'r anfanteision disgwylidig yn glir ac yn deg o gymharu â'r sefyllfa bresennol, ynghyd â sut y bydd yn rheoli unrhyw risg. Mae'n nodi'n gywir ei bod yn anochel y bydd 'rhai' disgyblion yn byw ymhellach o safle newydd yr ysgol, ond nid yw'n ystyried sawl disgybl nac yn manylu ar sut bydd

yr awdurdod lleol yn ymdrin â'r mater hwn. Mae'r awdurdod lleol yn nodi ei fod o'r farn y bydd y gwahaniaeth yn yr amser a gymerir i deithio i safle newydd yr ysgol yn ddibwys, gan ei fod yn agos at yr ysgol bresennol, ond nid yw'n nodi pa mor bell o'r ysgol bresennol y mae'n bwriadu lleoli'r adeilad newydd.

Mae'r awdurdod lleol yn amlinellu tri dewis amgen addas i'r cynnig, ac yn rhoi rhesymau derbyniol ynghylch pam y mae wedi'u diystyru. Fodd bynnag, er bod y cynnig yn amlinellu sawl gwaith bod angen gwaith sylweddol ar adeilad a safle cyfredol yr ysgol, nid yw'r awdurdod lleol yn archwilio'n fanwl yr opsiwn o atgyweirio.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried, yn rhannol, effaith y newidiadau ar drefniadau teithio dysgwyr. Mae'r cynnig yn amlinellu bod yr awdurdod lleol wedi arfer pwerau dewisol a roddir iddo dan ddarpariaethau Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i gynnig darpariaeth fwy hael i ddisgyblion. Mae'r maen prawf cymhwysedd ar gyfer pellter cerdded i ddisgyblion i'w hysgol addas agosaf ar 1.5 milltir, yn hytrach na'r 2 filltir sy'n ofynnol gan y mesur. Cynigir hyn i ddisgyblion sy'n bodloni'r maen prawf cymhwysedd 0 1.5 milltir o ddechrau'r cyfnod sylfaen.

Mae'r cynnig yn rhagamcan gostyngiad bach yn nifer y disgyblion sydd ar gofrestr yr ysgol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, ac y bydd angen tua 144 0 leoedd erbyn 2025. Ar yr un pryd, byddai'r adeilad newydd yn cynnig lle i 210 0 ddisgyblion, ynghyd â dosbarth meithrin. Nid yw'r cynigiwr yn archwilio'r rheswm dros nifer y lleoedd gwag yn fanwl, heblaw am nodi y gallai adeiladau ysgol gwell arwain at fwy o ddisgyblion yn manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg yn lleol.

Mae'r cynnig yn rhoi ystyriaeth dda i effaith y cynigion ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr awdurdod lleol ac i ba raddau y mae'r cynnig yn cefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yr awdurdod lleol. Mae'n nodi bod gwella ac ehangu agwedd ffisegol darpariaeth cyfrwng Cymraeg ledled yr awdurdod yn ffactor hanfodol yn y CSCA. Bydd y cynnig i drosglwyddo Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn y Forwyn i adeilad ysgol newydd o safon yr 21 ain ganrif, sydd â mwy o leoedd, yn cyfrannu at nod yr awdurdod o gynyddu nifer y disgyblion sy'n manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg ac yn ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion barhau â'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r cynnig yn nodi costau ariannol y cynnig ac yn amcangyfrif mai cost yr adeilad newydd fydd 28.5 miliwn. Fodd bynnag, nid yw'n glir a yw'r cyllid hwnnw'n Sicr ai peidio. Mae'r cynnig ond yn nodi y caiff costau'r prosiect eu datblygu ochr yn ochr â'r broses ymgynghori, ac y caiff cymeradwyaeth ei cheisio yn unol â gweithdrefnau penderfynu'r Cyngor. Nid yw'r cynigiwr yn esbonio beth fydd yn digwydd os nad yw'r cyllid hwn ar gael.

## **Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'r cynigiwr yn rhoi ystyriaeth dda i'r agweddau addysgol ar y cynnig. Mae'n nodi'n ddefnyddiol fanylion am ddeilliannau arolygiad diweddaraf Estyn ac

argymhellion yr ysgol ar gyfer gwella. Mae'n rhoi ystyriaeth ddefnyddiol i sut bydd symud i'r safle newydd yn helpu i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn.

Mae'r awdurdod lleol yn rhoi ystyriaeth briodol i effaith y cynigion ar ansawdd a safonau mewn addysg, gan gynnwys safonau disgyblion; lles; addysgu a phrofiadau dysgu; gofal, cymorth ac arweiniad; ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Er enghraifft, mae'r cynnig yn nodi y byddai trosglwyddo i safle newydd yn cynnig man helaeth yn yr awyr agored, gan gynnwys mannau gwyrdd i ddisgyblion ddysgu a chwarae ynddynt. Mae'n tybio'n deg y byddai lles ac agweddau disgyblion at ddysgu yn elwa ar fannau amrywiol a difyr yn yr awyr agored. Mae'n nodi ymhellach y byddai adeilad ysgol sy'n addas i'r diben yn helpu sicrhau y gall staff ddarparu cwricwlwm cytbwys, yn unol â'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Bydd amgylchedd dysgu gwell hefyd yn cynnig mwy o hyblygrwydd i ddisgyblion, ac felly mwy o ddewis yn eu profiadau dysgu.

Mae'r cynigiwr yn nodi'n deg pe byddai'r cynnig yn cael ei roi ar waith, y byddai'n debygol o gael effaith gadarnhaol o ran sicrhau y caiff cwricwlwm llawn ei gyflwyno yn yr ysgol. Er enghraifft, mae'r cynnig yn nodi y byddai symud i safle newydd yn darparu mannau helaeth yn yr awyr agored, gan gynnwys mannau gwyrdd i ddisgyblion ddysgu a chwarae ynddynt.

Mae'r cynnig yn ystyried, i ryw raddau, effaith y cynnig ar grwpiau bregus, gan gynnwys plant ag anghenion addysgol arbennig, ond nid yw'n rhoi digon o wybodaeth am y maes hwn. Mae'n nodi y bydd 'rhywfaint o allu a lle ychwanegol ar gyfer ymyriadau anghenion dysgu ychwanegol'. O ran hygyrchedd, bydd yr adeilad newydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2020.

Mae'r awdurdod lleol yn nodi ei bod yn anochel y bydd cynigion ad-drefnu ysgolion yn achosi rhywfaint o darfu ac ansicrwydd. Mae'n nodi bod profiad yn dangos bod modd achosi cyn lleied o darfu â phosibl drwy ymgysylltu'n ystyrlon drwy gydol y broses ymgynghori. Serch hynny, nid yw'r cynnig yn ystyried beth allai'r ffactorau aflonyddgar hyn fod yn yr achos penodol hwn, na sut bydd yr awdurdod lleol yn eu lleihau i ddysgwyr.

